Awdurdod S4C
Polisi Masnachu Teg

Tachwedd 2008

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Awdurdod S4C (yr "Awdurdod") wedi mabwysiadu'r polisi masnachu teg hwn (y "Polisi") er mwyn sicrhau bod ymwneud S4C gyda'i chyflenwyr a rhanddalwyr yn cyd-fynd â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol perthnasol bob amser, yn ogystal â'r egwyddorion masnachu teg a amlinellir yn y Polisi hwn.

1.2 Mae'r Polisi hwn yn amlinellu'r gofynion statudol sydd ar yr Awdurdod ac mae'n nodi dehongliad yr Awdurdod o'i ofynion masnachu teg hefyd, ynghyd â'r gweithdrefnau y bydd yr Awdurdod yn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu er mwyn gwneud yn si□r bod yr holl weithgareddau perthnasol yn cydymffurfio â'r Polisi hwn. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod proses gydymffurfio a chwynion yn bodoli.

1.3 Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am S4C ac am ddarparu ei gwasanaethau teledu cyhoeddus. Mae'r Awdurdod wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros reolaeth S4C o ddydd i ddydd, i'r Tîm Gweithredol. Nid yw'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir o ddydd i ddydd, yn enwedig penderfyniadau golygyddol neu gomisiynu. Mae'r Tîm Gweithredol yn atebol i'r Awdurdod am sicrhau cydymffurfiaeth yr holl weithgareddau perthnasol gyda'r Polisi hwn.

1.4 Yn ogystal â'r Polisi hwn, mae S4C wedi cyhoeddi polisïau a chodau perthnasol eraill yn flaenorol a allai orgyffwrdd â'r Polisi hwn mewn meysydd arbennig, ac a allai fod yn berthnasol i'r Polisi hwn. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw'r Polisi hwn yn disodli unrhyw rai o'r dogfennau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

(i) Datganiad Polisi Caffael S4C;
(ii) Côd Ymarfer S4C ar gyfer Comisiynu Rhaglenni; (gan gynnwys Polisi Comisiynu S4C); a
(iii) Thelerau Masnach S4C (ail rifyn).

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod penderfyniadau sy'n ymwneud â chomisiynu cynnwys ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus S4C yn cael eu seilio ar ffactorau niferus, gan gynnwys barn olygyddol. Bydd y Tîm Gweithredol yn sicrhau bod ei weithgareddau comisiynu yn cefnogi egwyddorion sylfaenol masnachu teg a nodir yng nghymal 2 isod.

1.5 Mae S4C yn ymrwymo i sicrhau y cynhelir yr holl weithgareddau perthnasol yn unol â'r Polisi hwn, fodd bynnag, gallai amgylchiadau godi o bryd i'w gilydd lle bod angen i S4C atal gweithrediad polisïau a chodau penodol. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd S4C yn parhau i gefnogi'r egwyddorion sylfaenol masnachu teg a nodir yng nghymal 2 isod.

2. Beth yw Masnachu Teg?

2.1 Mae modd dehongli'r term "Masnachu Teg" mewn gwahanol ffyrdd gan ddibynnu ar y cyd-destun. Yn ogystal, gall gofynion Masnachu Teg ddeillio o ffynonellau deddfwriaethol a ffynonellau eraill. At ddibenion y Polisi hwn, mae'r Awdurdod wedi diffinio Masnachu Teg fel a ganlyn:

2.1.1 Cyflawni busnes S4C mewn ffordd deg a rhesymol bob amser;

2.1.2 Sicrhau cystadleuaeth deg o ran gweithgareddau caffael S4C;

2.1.3 Peidio gweithredu mewn ffyrdd sy'n rhwystro cystadleuaeth neu sy'n cael effaith negyddol ar gystadleuaeth; a

2.1.4 Sicrhau y gweithredir polisïau a phrosesau S4C mewn ffordd sy'n annog cystadleuaeth deg, gan sicrhau bod polisïau a phrosesau o'r fath yn deg ac yn dryloyw hefyd.

3. Cwmpas y Polisi Masnachu Teg

Mae'r Awdurdod o'r farn y dylai'r egwyddorion masnachu teg fod yn berthnasol i'r holl weithgareddau a gyflawnir gan S4C o ran darparu ei gwasanaethau cyhoeddus, ac a ariannir o'r Gronfa Gwasanaeth Gyhoeddus (yn unol â'r diffiniad yn adran 61A Deddf Darlledu 1990 ("Deddf 1990")).

4. Awdurdodau Cystadleuaeth Perthnasol

4.1 Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu, nac yn awgrymu, fod y Polisi hwn yn disodli darpariaethau statudol perthnasol eraill, neu gyfraith gystadleuaeth (domestig neu Ewropeaidd), na chyfyngu ar y dulliau unioni statudol sydd ar gael i gwynwr ynghylch anghydfod masnachu teg gydag S4C. Mae'n bwysig nodi nad oes gan yr Awdurdod unrhyw bwerau statudol i orfodi darpariaethau cyfraith gystadleuaeth. O ran gweithredu'r Polisi hwn, bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau na fydd ei weithgareddau yn gwneud niwed i unrhyw ymchwiliad posibl gan awdurdod cystadleuaeth cymwys neu unrhyw ymchwiliad arall dan unrhyw weithdrefn reoliadol berthnasol arall.

4.2 Pan fo hynny'n berthnasol, gall cwynwyr sy'n dymuno ceisio penderfyniad ffurfiol ynghylch materion sy'n ymwneud â chyfraith gystadleuaeth, gyfeirio eu cwyn at yr awdurdodau cystadleuaeth perthnasol yn uniongyrchol. Mae'r awdurdodau hyn yn cynnwys:

(i) Y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) (sy'n ymarfer pwerau cyfraith gystadleuaeth dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 a Deddf Menter 2002);

(ii) Y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) sy'n gweithredu pwerau dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003") a phwerau cydredol dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 sy'n ymwneud â darlledu, sbectrwm radio a thelegyfathrebu; a'r

(iii) Comisiwn Ewropeaidd, sy'n gyfrifol am faterion cyfraith gystadleuaeth trawsffiniol a materion sy'n ymwneud â chyfraith cymorth y wladwriaeth hefyd.

5. Darpariaethau Rheoliadol a Statudol Perthnasol

5.1 Mae'r ffynonellau darpariaethau deddfwriaethol a darpariaethau masnachu teg eraill canlynol yn berthnasol i weithgareddau'r Awdurdod:

5.2 Darpariaethau Statudol

5.2.1 Mae Awdurdod S4C yn awdurdod a grëwyd gan statud er mwyn cyflawni swyddogaethau penodol. Cynhwysir y darpariaethau hyn yn Neddf 1990, Deddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996"), Deddf 2003 a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Prif swyddogaeth S4C yw darparu gwasanaethau teledu Cymraeg o ansawdd uchel ar lwyfannau teledu analog a digidol. Mae'r gwasanaethau, a elwir yn S4C (ar y llwyfan teledu analog) ac S4C Digidol (sydd ar gael ar lwyfannau teledu digidol) yn Wasanaethau Cyhoeddus dynodedig (yn unol â'r diffiniad yn adran 207 Deddf 2003).

5.2.2 Mae'r Awdurdod yn cael grant statudol gan yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon er mwyn darparu'r gwasanaethau teledu a ddarparir gan yr Awdurdod. Rhaid cadw'r grant, a elwir y Gronfa Gwasanaeth Gyhoeddus (yn unol â'r diffiniad yn adran 61A Deddf 1990) mewn cronfa ar wahân a'i ddefnyddio er mwyn darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yr Awdurdod yn unig (yn unol â'r diffiniad yn adran 207 Deddf 2003). Ni chaiff unrhyw un o Gwmnïau S4C (yn unol â'r diffiniad yn adran 202(1) Deddf 1990) dderbyn unrhyw gymhorthdal uniongyrchol neu anuniongyrchol o'r Gronfa Gwasanaeth Gyhoeddus. Mae'r Awdurdod yn ystyried bod y cyfyngiadau hyn yn ofyniadau masnachu teg.

5.2.3 Defnyddir y Gronfa Gwasanaeth Gyhoeddus i gomisiynu rhaglenni ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus S4C o ffynonellau gan gynnwys y sector cynhyrchu teledu annibynnol, ITV Cymru a ffynonellau eraill. Yn ogystal, mae gan y BBC ddyletswydd statudol i ddarparu gwerth o leiaf deg awr o raglenni yr wythnos i S4C yn rhad ac am ddim. Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo polisïau caffael a chomisiynu er mwyn sicrhau bod y rhaglenni a gomisiynir yn arbennig ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus S4C yn cael eu cytundebu neu'n cael eu caffael mewn ffordd deg a rhesymol. Cred yr Awdurdod bod masnachu teg yn hollbwysig o ran y polisïau a'r gweithgareddau hyn.

5.2.4 Mae Paragraff 10, Atodlen 12 Deddf 2003 yn gorfodi S4C i weithredu Côd Ymarfer ar gyfer comisiynu rhaglenni gan gynhyrchwyr annibynnol. Yn ogystal, rhaid i Ofcom gymeradwyo unrhyw gôd ymarfer sy'n cael ei baratoi gan S4C.

5.3 Cydymffurfiaeth Safonau Rhaglenni

Mae Deddf 2003 yn rhoi dyletswydd statudol ar Awdurdod S4C i sicrhau bod ei wasanaethau teledu cyhoeddus yn cydymffurfio â darpariaethau amrywiol a gynhwysir yn Neddf 2003, a gyda gofynion rheoliadol eraill hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau perthnasol a gynhwysir yn Neddf 1990, a Chôd Darlledu Ofcom hefyd. Yn ogystal, mae Awdurdod S4C wedi mabwysiadu canllawiau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn rhaglenni. Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am reoleiddio elfennau penodol o wasanaethau cyhoeddus S4C.

5.4 Cyfraith Gystadleuaeth Domestig ac Ewropeaidd (gan gynnwys cyfraith Cymorth y Wladwriaeth)

5.4.1 Rhaid i Awdurdod S4C gydymffurfio â darpariaethau perthnasol dan gyfraith gystadleuaeth. Mae cyfraith gystadleuaeth yn cynnwys darpariaethau deddfwriaethol domestig ac Ewropeaidd, fel y nodir isod.

5.4.2 Amlinellir y fframwaith cyfraith gystadleuaeth isod. Ni fwriedir i hwn fod yn ddatganiad o'r gyfraith, ac fe'i cynhwysir at ddibenion esboniadol yn unig.

5.4.3 Cynhwysir cyfraith gystadleuaeth Ewropeaidd yn Erthygl 81 (sy'n gwahardd cytundebau cyfyngol sy'n effeithio ar fasnachu rhwng gwledydd UE) ac Erthygl 82 Cytuniad yr CE (sy'n gwahardd cwmnïau sydd â grym sylweddol mewn marchnad rhag camddefnyddio'u sefyllfa drech pan fydd hyn yn effeithio ar fasnachu rhwng gwledydd yr UE).

5.4.4 Mae cyfraith gystadleuaeth y DU yn adlewyrchu darpariaethau Erthygl 81 ac Erthygl 82, ac eithrio'r ffaith y gall effeithiau unrhyw arferion tramgwyddus fod oddi mewn i'r DU, yn hytrach nag effeithio masnachu rhwng gwledydd yr UE. Mae Deddf Cystadleuaeth 1998 yn cynnwys gwaharddiad ar gytundebau cyfyngol (a elwir yn Waharddiad Pennod I) a gwaharddiad ar gamddefnyddio sefyllfa drech (a elwir yn Waharddiad Pennod II). Yn ogystal, mae gweithdrefn cyfraith gystadleuaeth y DU yn cynnwys trosedd cartél troseddol, a gynhwysir yn Neddf Menter 2002.

5.4.5 Cynhwysir cyfraith cymorth gwladwriaethol Ewropeaidd yn Erthyglau 87–89 Cytuniad CE. Mae'r darpariaethau hyn yn gwahardd unrhyw gymorth a roddir trwy gyfrwng adnoddau'r wladwriaeth (o unrhyw ffurf) sy'n gwyrdroi cystadleuaeth trwy ffafrio cwmnïau penodol neu gynhyrchu nwyddau penodol.

5.5 Gofynion Caffael Cyhoeddus

5.5.1 Mae Awdurdod S4C wedi cyhoeddi Datganiad Polisi Caffael sydd ar gael ar safle we S4C. Fel corff cyhoeddus, mae'r Awdurdod yn rhwym i ddarpariaethau gweithdrefn yr UE sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus. Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 yn mynnu bod S4C yn cydymffurfio â rheoliadau sy'n ymwneud â'r ffordd y bydd gwasanaethau amrywiol yn cael eu caffael (gan ddibynnu ar ffactorau gan gynnwys gwerth ariannol y cytundeb).

5.5.2 Caiff gweithgareddau penodol sy'n ymwneud â darlledu, cynhyrchu deunydd ar gyfer rhaglenni ac amser darlledu yn arbennig, eu heithrio o'r weithdrefn ar gyfer caffael cyhoeddus. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y Polisi Comisiynu yn cydymffurfio gydag egwyddorion cyffredinol y rheoliadau.

5.6 Gwasanaethau Cyhoeddus Newydd

Pan fydd yr Awdurdod yn dymuno lansio neu gyfranogi yn y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus newydd yn unol â darpariaethau adran 205 Deddf 2003, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu polisi er mwyn sicrhau, pan fo hynny'n berthnasol, ei fod yn ymgynghori cyn lansio unrhyw wasanaethau cyhoeddus newydd a allai gael effaith sylweddol ar farchnad berthnasol. Cred yr Awdurdod bod deall y farchnad bosibl neu'r effaith gystadleuol y gallai ei wasanaethau eu cael yn egwyddor masnachu teg.

6. Gwrthdaro rhwng Darpariaethau Masnachu Teg

6.1 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gallai gwrthdaro godi o dro i dro rhwng darpariaethau gwahanol bolisïau a chodau a'r Polisi hwn. Pan fydd yr Awdurdod o'r farn bod gwrthdaro yn bodoli, bydd yr Awdurdod yn ystyried y mater er mwyn ceisio datrys y gwrthdaro.

7. Gweithrediad

7.1 Mae'r Awdurdod yn disgwyl i Dîm Gweithredol S4C i weithredu yn unol â'r Polisi hwn bob amser mewn perthynas â'r materion hynny a ddiffiniwyd yng nghymal 3.

7.2 Bydd yr Awdurdod yn disgwyl i Dîm Gweithredol S4C sicrhau bod canllawiau yn bodoli o fewn S4C er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Polisi hwn, ac er mwyn sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o gynnwys y Polisi hwn. Bydd Awdurdod S4C yn gyfrifol am gymeradwyo'r canllawiau masnachu teg.

8. Adolygu'r Polisi

Bydd Awdurdod S4C yn adolygu'r Polisi hwn yn rheolaidd, a bydd yn adolygu'r Polisi yn ffurfiol o leiaf unwaith bob dwy flynedd. Bydd unrhyw adolygiad o'r fath yn cynnwys:

(i) asesiad o weithrediad y Polisi ac unrhyw ganllawiau perthnasol;
(ii) adolygiad o ddatblygiadau deddfwriaethol perthnasol a datblygiadau gan gyrff rheoliadol;
(iii) asesiad o'r arfer gorau cyfredol ynghylch masnachu teg; ac
(iv) unrhyw fater arall sy'n berthnasol mewn adolygiad o'r fath ym marn Awdurdod S4C.

9. Adrodd

9.1 Mae gan Awdurdod S4C y cyfrifoldeb terfynol dros sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r holl ofynion rheoliadol a statudol perthnasol sy'n ymwneud â gweithgareddau S4C, gan gynnwys masnachu teg. Yn ei Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol, bydd yr Awdurdod yn adrodd i'r Senedd ynghylch gweithrediad y Polisi hwn. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod darpariaethau archwilio perthnasol yn bodoli mewn perthynas â gofynion y Polisi hwn.

10. Y Broses o Ddelio â Chwynion

10.1 Mae cwyn sy'n ymwneud â materion masnachu teg yn un sy'n honni bod S4C, wrth ddelio â chyflenwyr a rhanddalwyr eraill, wedi torri darpariaethau'r Polisi hwn neu ddarpariaethau deddfwriaethol perthnasol.

10.2 Mae Awdurdod S4C yn rhoi'r pwys mwyaf ar gydymffurfio â'r Polisi hwn. Dylai'r rhai sy'n dymuno gwneud cwyn dan y Polisi hwn gyfeirio'r mater yn gyntaf at swyddogion S4C y maent wedi bod yn delio â nhw ynghylch y mater perthnasol, er mwyn ceisio datrys unrhyw fater mewn ffordd gyfeillgar. Mewn amgylchiadau pan na fydd hyn yn briodol neu pan na fydd y mater yn cael ei ddatrys, dylai cwynwyr droi at Weithdrefn Gwyno S4C. Mae Awdurdod S4C wedi mabwysiadu gweithdrefn gwyno (y "Weithdrefn Gwyno") sy'n cynnig strwythur i gwynwyr, lle y mae'r Awdurdod yn ceisio bod yn atebol ac yn dryloyw yn ei holl waith, gan ddelio â chwynwyr mewn ffordd deg, rhesymol a chyson. Cynhwysir Gweithdrefn Gwyno S4C yn Atodiad 1 y Polisi hwn.

11. Sancsiynau

11.1 Pan fydd Pwyllgor Cwyno a Chydymffurfiaeth Awdurdod S4C yn canfod bod y Tîm Gweithredol wedi torri darpariaethau'r Polisi hwn, bydd yn argymell i'r Awdurdod y sancsiynau i'w gweithredu. Mae'r Weithdrefn Gwyno yn cynnwys manylion y sancsiynau posibl.

ATODIAD 1

GWEITHDREFN GWYNO S4C

Gweler: http://www.s4c.co.uk/c_complaint_procedure.shtml